



Rheoliadau ar gynllunio rhestrau prisiau a gwybodaeth am fannau gwerthu

Gofynion cyffredinol


Mae deddfwriaeth y Gwaharddiad ar Arddangos yn caniatáu tri math o restrau a labeli prisiau yn unig ar gyfer cynhyrchion tybaco. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y dylai pob un o'r rhain ddefnyddio ffont Helvetica neu Arial plaen du yn unig, sydd yr un maint drwy'r rhestr gyfan, **HEB UNRHYW** danlinellu, ffont italig na dull arall o bwysleisio. Bydd yn drosedd arddangos prisiau mewn unrhyw ffordd arall. Mae'n rhaid i fanwerthwyr ddal i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn Nodi Prisiau sy'n nodi bod yn rhaid i bris y nwyddau gael ei arddangos yn glir yn y siop.

Rhestrau a labeli a ganiateir

1 Poster uned arddangos

Gall un poster A3 gael ei arddangos ym mhob ardal wahanol o'r siop lle caiff cynhyrchion tybaco eu harddangos a'u gwerthu neu ym mhob til lle cânt eu gwerthu. Yn ogystal â'r uchod, mae'n rhaid i'r poster gynnwys y canlynol:

- Teitl dwyieithog 'Rhestr o brisiau cynhyrchion tybaco / Tobacco products price list'.
- Geiriau nad ydynt yn fwy na maint ffont 30.
- Enw'r brand, y pris a nifer yr unedau fesul pecyn yn unig.
- Gallwch ddefnyddio'r isdeitlau dwyieithog canlynol:
 - sigarêts / cigarettes.
 - tybaco rholio â llaw / hand rolling tobacco.
 - sigârs / cigars.
 - cynhyrchion tybaco eraill / other tobacco products.




2 Catalog y cownter tybaco

Gallwch gadw catalog o gynhyrchion ym mhob man gwerthu, ond ni ddylech ei arddangos oni fydd unigolyn dros 18 yn gofyn am gael ei weld.

Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol uchod, mae'n rhaid i'r catalog gynnwys y canlynol:

- Geiriau nad ydynt yn fwy na maint ffont 14.
- Lluniau o becynnau wedi'u brandio nad ydynt yn fwy na 50cm² (tua maint pecyn safonol).



3 Labeli prisiau

Gallwch roi labeli prisiau ar silffoedd sydd wedi'u gorchuddio neu ar flaen yr uned storio.

Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol uchod, mae'n rhaid i bob label:

- Fod ddim mwy na 9cm².
- Cynnwys geiriau nad ydynt yn fwy na maint ffont 14.
- Dim ond un label a ganiateir ar gyfer pob lleoliad lle cedwir cynhyrchion.
- Cynnwys enw'r brand, y pris a nifer yr unedau fesul pecyn yn unig.

